**Awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu cwyn:**

- Gall deimlo yn ddryslyd pan wyt ti'n ysgrifennu beth sydd wedi digwydd, felly mae'n bwysig i ti fod yn garedig gyda thi dy hun a chymryd egwyl os wyt ti eisiau.
- Ceisia fod mor benodol ag wyt ti'n gallu a dylet ti gynnwys dyddiadau pwysig ac enwau pobl yn y gwasanaeth yr wyt ti wedi siarad gyda nhw am dy broblemau.
- Os yw hyn yn anodd i ti, gofynna i ffrind neu oedolyn yr wyt ti'n ymddiried ynddo i'w ysgrifennu gyda thi neu ddarllen trwyddo.
- Cofia gynnwys unrhyw gopïau o lythyrau neu e-byst perthnasol sydd gennyt ynglŷn â dy gŵyn.

**Templed o lythyr/e-bost ar gyfer cwyno**

[Cwblha'r lleoedd gwag isod gyda chymaint o fanylion ag sy'n bosibl.]

At: ___________

Llinell destun: Cwyn ynglŷn â __________

Dyddiad: [os wyt ti'n ysgrifennu llythyr ar bapur, cofia gynnwys dyddiad heddiw]

Annwyl [ysgrifenna ei enw os wyt ti'n ei wybod, neu enw'r gwasanaeth]

**Mae hon yn gŵyn ffurfiol a hoffwn iddi gael ei hymchwilio a'i datrys**

Y broblem yr wyf yn dymuno cwyno amdani yw __________________ [ceisia roi manylion ynglŷn â beth sydd wedi cael ei wneud gyda dy wybodaeth a'r effaith y mae hyn wedi'i chael arnat ti].

Beth yr hoffwn ddigwydd nesaf yw _____________________________ [e.e. cael storio dy wybodaeth yn fwy diogel yn y dyfodol neu dderbyn ymddiheuriad ynglŷn â'r ffordd yr wyt ti wedi cael dy drin].

Hoffwn i chi gysylltu â mi __________ [e.e. ffôn, e-bost neu drwy'r post].

Fy manylion cyswllt yw: [noda dy fanylion cyswllt yma].

Tybed a allwch chi gadarnhau eich bod chi wedi derbyn ac wedi darllen y gŵyn hon os gwelwch yn dda?

Diolch,

[ysgrifenna dy enw yma]